

Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

Cofnodion y cyfarfod o'r Panel Ymgysylltu a gynhaliwyd Nos Fercher, 4 Gorffennaf 2018 yn Neuadd Pentref Y Groeslon

Minutes of the Consulting Panel held Wednesday, 4 July 2018 at Groeslon Village Hall

Yn bresennol - Present

Aelodau'r Cyngor / Council Members - Cynghorwyr Alun Wyn Jones; Gwyn Owen Jones; Hywel J Owen; Eddie Willcox, Clive Bayley
David Roberts Clerc y Cyngor / Council Clerk
Huw Roberts, Cyfiethydd/Translator

1 Croeso'r Cadeirydd – Chairmans Welcome

Agorwyd y cyfarfod gan Cadeirydd y Panel Cyng. Gwyn Owen Jones. Diolchodd i bawb am fynychu

Clir Gwyn Owen Jones chaired the Panel. He went straight to the evenings business

2 Ymddiheuriadau am absenoldeb / Apologies for absences

Cyng. Helen Hughes; Cyng. Gerwyn Owen; Cyng. David C Davies;

3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar unrhyw faterion ar y Rhaglen - Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000/ *To Receive Disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000*

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol na buddiant yn rhagfarnu gan aelodau oedd yn bresennol.

No declaration of interest was made by those present

4 Yr Holiadur / The Questionnaire

Dosbarthwyd fersiwn diwygiedig i aelodau ymlaen llaw i'r cyfarfod gan y Clerc.

Cafwyd trafodaeth ar yr holiadur .

Sylwadau Aelodau-

AWJ - O'r farn nad oes angen cwestiwn 7. Datblygu ffordd o gyfathrebu sydd bwysicaf. Ofn ymrwymo'r Cyngor am dair blynedd.

HJO - Dim gwerth i'r holiadur heb gynnwys cwestiwn 7.

CB- Angen cynnwys Bethesda Bach a Ty'n Lon yng nghwestiwn 1. Angen ychwanegu e-bost yng nghwestiwn 6. Ofni fod y Panel yn troi yn yr unfan. Angen symud ymlaen.

Clerc- atgoffa aelodau o benderfyniad y Cyngor 18 Mehefin i dderbyn yr holiadur gyda'r addasiadau oedd yn cynnwys cwestiwn 7.

Roedd pawb yn cytuno i adael yr holiadur fel a'i ddisbarthwyd a gadael i arbennigwyr rhoi arweiniad ar y ffordd ymlaen.

5 Dull Dosbarthu a'r Briff / Distribution & Brief

Trafodwyd talu am arbenigwyr i gynorthwyo a rhoi Cyngor i'r Panel ar y ffordd ymlaen.

Cafwyd gwybodaeth gan EW o fanteision defnyddio "monkey survey" i goladu'r holiaduron wedi ei chwblhau.

Trafodwyd dull dosbarthu'r holiaduron a chostau bosib. EW o'r farn fod yna wirfoddolwyr fyddai'n dosbarthu yn y Fron. Anfantais hyn fyddai methiant i ddsbarthu i rai anheddau.

AWJ - awyddus i gynnwys plant ysgolion cynradd yn yr holiadur.

CB- onid oedd y Panel wedi penderfynu gosod briff i Gwmni Celyn i gynnig pris? Pam trafod eto? Wedi hir drafodaeth barn yr aelodau oedd gosod y briff canlynol ac i'r Clerc wahodd prisiau gan dri chwmni gan gynnwys Cwmni Celyn.

Briff ar gyfer Ymgysylltu gyda'r Gymuned (Cyngor Cymuned Llandwrog)

- **Datblygu a mireinio'r holiadur drafft.**
- **Darparu rhagair yn egluro pwrpas yr holiadur**
- **Rhoi cyngor ar y dull dosbarthu**
- **Argraffu'r holiadur a'r rhagair yn y Gymraeg ac yn Saesneg**
- **Cynghori ar ddatblygu safleoedd cyhoeddus megis Facebook a Twitter**
- **Coladu'r canlyniadau a darparu adroddiad i'r Cyngor**
- **Darparu hysbys cyhoeddus ar gyfer cynnal cyfarfodydd cyhoeddus yn y pentrefi yn y Gymraeg a Saesneg**
- **Ymweld y Cyngor gyda'r holiadur / rhagair terfynol cyn ei ddsbarthu**
- **Hysbysebu'r ymgynghoriad gyda'r Wasg leol**

CB yn awgrymu y dylid gofyn am ar gyfer pob cam uchod o'r gwaith.

Rhodddwyd gair o ddiolch gan AWJ i'r Cadeirydd - torri tir newydd yma a ddim yn hawdd cadeirio'r drafodaeth. Pawb hefo syniadau a barn. Diolchodd hefyd y Clerc am gofnodi'r drafodaeth.

Argymhelliad i'r Cyngor

- Fod y Cyngor yn derbyn y briff fel y nodwyd uchod***
- Fod y Cyngor rhoi hawl dirprwyedig i'r Panel symud ymlaen a derbyn un o'r prisiau yn amodol fod cyllideb ddigonol wedi ei adnabod gan y Pwyllgor Cyllid***
- Fod y Cyngor yn gofyn i'r Panel gynnal cyfarfod cyn Cyngor Llawn Mis Medi gyda'r arbenigwyr i gadw'r momentwm a sicrhau fod yr holiaduron yn cael ei dosbarthu yn fuan yn nhyrnor yr Hydref.***

Recommendation to Council-

- That the Council accepts the brief as noted***
- That the Council gives delegated power to the Panel for it to accept one of the estimates subject to funding being identified and being available by the Finance Committee.***
- For the Panel to meet again before the September meeting of full Council so as to keep the momentum going in order for the questionnaire to be distributed early in the Autumn.***

Daeth y cyfarfod i ben am 8:20 yr hwyr / Meeting closed at 8.20pm

Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir -

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor

Dyddiad -